

Jeremy Miles AC/AM
Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit
Counsel General and Brexit Minister



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-L/FM/0117/19

Mick Antoniw AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
SeneddCLA@cynulliad.cymru

05 Mawrth 2019

Annwyl Mick,

Ysgrifennaf atoch yn rhinwedd eich rôl fel Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol er mwyn tynnu eich sylw at Reoliadau Herio Dilysrwydd Offerynnau'r UE (Ymadael â'r UE) 2019.

Fe wnaeth Chris Heaton-Harris AS, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol yn yr Adran dros Ymadael â'r UE, ysgrifennu ataf ynghylch yr OS hwn fel mater o gwrteisi, i hysbysu Gweinidogion Cymru am gynlluniau i roi pwerau newydd iddynt. Rwyf wedi ysgrifennu ato i gydnabod yr OS, gan gadarnhau nad yw Gweinidogion Cymru yn gwrthwynebu cael y swyddogaethau newydd hyn. Rwyf hefyd yn gosod datganiad ysgrifenedig yn y Cynulliad Cenedlaethol ynghylch yr OS.

Mae'r OS hwn yn deddfu mewn pwnc a gedwir yn ôl, ac o ganlyniad nid yw'r Cytundeb Rhynglywodraethol na gofynion Rheol Sefydlog 30C yn berthnasol iddo. Fodd bynnag, yn wahanol i'r arfer, mae'r OS yn rhoi swyddogaethau newydd i Weinidogion Cymru. Er mwyn sicrhau tryloywder, ac i roi darlun llawnach i'r Pwyllgor wrth graffu ar raglen y DU o OS Ymadael â'r UE, roeddwn o'r farn y byddai'n briodol tynnu eich sylw at yr OS.

Ar hyn o bryd, gall llysoedd a thriwiwnlysoedd y DU wneud atgyfeiriad rhagarweiniol i Lys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd (CJEU) pan fo angen penderfyniad ar gwestiwn er mwyn galluogi'r llys neu'r triwiwnlys i roi dyfarniad. Gellir atgyfeirio i gael dyfarniad ynghylch a yw cyfraith berthnasol yr UE yn ddilys mewn gwirionedd. Ar ôl i'r DU ymadael â'r UE, ni fydd modd i lysoedd a thriwiwnlysoedd y DU wneud atgyfeiriad rhagarweiniol bellach i'r CJEU. O ganlyniad, ni fydd gan y CJEU unrhyw swyddogaeth yn y DU pan fydd cwestiynau'n codi ynghylch dehongli neu ddilysrwydd cyfraith yr UE a ddargedwir ar ôl ymadael ac yn dilyn hynny.

Mae Paragraff 1 o Atodlen 1 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) yn darparu, ar ôl i'r DU ymadael â'r UE, na fydd hawl mewn cyfraith ddomestig i herio cyfraith yr UE a ddargedwir ar y sail bod offeryn yr UE yn annilys yn union cyn y diwrnod ymadael. Fodd

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
PSCGBM@gov.wales / YPCCGB@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

bynag, rhoddir pŵer i Weinidog y Goron wneud rheoliadau sydd, er gwaethaf y gwaharddiad cyffredinol, yn caniatáu ar gyfer mathau penodol o heriau i gyfraith yr UE a ddargedwir.

Y sefyllfa y mae Llywodraeth Cymru yn ei ffafrio yw gweld achosion a gychwynnwyd cyn y diwrnod ymadael yn medru parhau lle bynnag bo hynny'n bosibl. Mae hyn yn gydnaws â pholisi cyffredinol Llywodraeth Cymru ar gyfer sicrhau parhad. Dyma hefyd safbwynt polisi Llywodraeth y DU ar gyfer achosion llys a fydd yn syrthio dan yr amgylchiadau hyn. O ganlyniad, mae'r Rheoliadau o dan Baragraff 1 o Atodlen 1 yn gwneud darpariaeth drosiannol er mwyn i lysoedd a thriwiwnlysoedd y DU fedru ystyried dilysrwydd cyfraith yr UE yn hytrach na'r CJEU.

Mae'r dull gweithredu hwn yn un ymarferol. Mae'n osgoi'r posibilrwydd o weld achosion yn cael eu dal mewn limbo cyfreithiol, lle nad oes modd symud ymlaen nes i lys neu driwiwnlys y DU gael dyfarniad gan y CJEU na fydd byth yn cyrraedd.

Mae'r rheoliadau drafft yn cynnig rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ymyrryd mewn achosion. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith y gallai achosion godi lle byddai heriau i ddilysrwydd cyfraith yr UE yn effeithio ar faterion datganoledig yng Nghymru. Nid yw'n debygol iawn y bydd angen arfer y pŵer hwn, ond mae'n hanfodol i'r pŵer fodoli rhag ofn y bydd her o'r fath yn codi cyn y diwrnod ymadael. Ar ben hynny, er mwyn sicrhau cydraddoldeb a bod y gweinyddiaethau datganoledig i gyd yn cael eu trin yn gyfartal, mae'r rheoliadau'n nodi pan fo llys yn bwriadu cyhoeddi datganiad annilysrwydd, rhaid iddo hysbysu Gweinidogion Cymru, yn ogystal â Gweinidogion y DU, Gweinidogion yr Alban ac adran Gogledd Iwerddon.

Gan fod yr OS yn deddfu mewn perthynas â phwnc a gedwir yn ôl, nid yw'n effeithio ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol.

Byddai cyfyngiad amser ar y pwerau hyn er mwyn ymdrin ag achosion sydd eisoes yn mynd rhagddynt cyn ymadael yn unig. Dim ond dau achos sy'n aros am ddyfarniad ar hyn o bryd fyddai'n sicr o gael eu dal gan y cynigion hyn pe bai'r DU yn ymadael heddiw. Nid oes modd gwybod faint o heriau eraill i ddilysrwydd fydd yn codi cyn y diwrnod ymadael, ond gan mai dim ond deg atgyfeiriad o'r fath a gafwyd yn y pedair blynedd ddiwethaf, mae'n annhebygol o fod yn nifer fawr.

Yn gywir,



Jeremy Miles AC

Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit
Counsel General and Brexit Minister